



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

12 Tachwedd 2021

9:00 yb – 12:00 yp

dros Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Bethan E Jones, Catrin Roberts, Chris Stockport, Cyng Cheryl Carlisle, Cyng Christine Jones, Cyng Bobby Feeley, Cyng Llinos Medi Huws, Cyng John Pritchard, Delyth Lloyd-Williams (yn bresennol tan 11:30 am), Dr Lowri Brown, Ffion Johnstone, Fôn Roberts (yn bresennol tan 11:30 am), Helen Corcoran, Jenny Williams, Jo Whitehead, John Gallanders, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards (yn bresennol tan 10 am), Neil Ayling, Nicola Stubbins, Roma Hooper, Shan Lloyd Williams, Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Barry Argent, Estelle Hitchon, Lucy Reid, Paul Scott, Cyng Dafydd Meurig, Sam Parry
Hefyd yn bresennol:	Rob Griffiths, Alder Advice (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Joy van Helvert, Alder Advice (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Rachel Pierce-Jones, Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol, Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSGC) (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Diolchodd y cadeirydd i BA, cynrychiolydd Gofalwyr BPRhGC am ei gyfraniad dros yr 8 mis diwethaf, gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.</p>	Anfon llythyr at BA - RW
2.	<p><u>Plant a Phobl Ifanc – Strategaeth Dim Drws Anghywir (NWD) – Adroddiad Diweddarau</u> Rob Griffiths a Joy van Helvert (Alder Advice)</p> <p>Rhoddodd Rob Griffiths a Jay van Helvert (Alder Advice) gyflwyniad ar Adroddiad Diweddarau Strategaeth 'Dim Drws Anghywir' (DDA) i'w gefnogi a'i gymeradwyo. Mae Strategaeth NWD wedi'i datblygu trwy broses gydweithredol sylweddol dros y 5 mis diwethaf trwy gyfres o weithdai budd-ddeiliad, ymchwil data meintiol, gweithio gyda'r tîm rhanbarthol a Rheolwyr Gwasanaethau Plant ac ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc sydd wedi dod i gyswllt â gwasanaethau perthnasol, er</p>	

mwyn galluogi newid systematig o ran darparu gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc.

Mae Strategaeth DDA yn cynnwys nid yn unig newid o ran adnoddau, ond hefyd pwyslais sylweddol ar weithio mewn partneriaeth, creu systemau fel endidau sengl gyda llinellau atebolrwydd clir a chanolbwynt ar lywodraethu, gan gydweithio i ddarparu canlyniadau gwell.

Mae Strategaeth DDA yn cynnig adolygiad radical o drefniadau presennol, gan gynnig model uchelgeisiol ar gyfer cydweithio a fydd yn gwella canlyniadau o ran iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae gan y strategaeth oblygiadau ar gyfer pob asiantaeth a phartner sy'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles plant a phobl ifanc a bydd gofyn i bob asiantaeth ddehongli ac alinio eu strategaethau a'u cynlluniau eu hunain â'r 'Strategaeth DDA' hon. Mae'r strategaeth yn cynnig dull rhanbarthol sy'n seiliedig ar weledigaeth a rennir a set a gytunwyd o egwyddorion cyffredin a gaiff eu gweithredu ar draws Ogledd Cymru gyfan, gyda'r dull gweithredu Tynn (egwyddorion ar draws y rhanbarth) – Rhydd (hyblygrwydd lleol o ran y model a ddatblygwyd) – Tynn (atebolrwydd i'r strwythur rhanbarthol ar gyfer perfformiad y system).

Mae model y canolbwynt yn cynnig nifer o rolau gweithredol i gryfhau dulliau o weithio, wedi'u dylunio fel bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth gywir cyn gynted ag sy'n bosibl – brysbennu, wedi'i ddarparu trwy Dîm Amlddisgyblaethol, a bydd gan bob unigolyn weithiwr proffesiynol arweiniol a fydd yn gweithredu fel llywiwr arweiniol.

Er mwyn rheoli adnoddau a sicrhau hyblygrwydd o fewn asiantaethau sy'n cydweithio, caiff panel adnoddau ei sefydlu gan gynnwys rheolwyr ar draws y system, tai a'r sector gwirfoddol, i sicrhau bod adnoddau ar draws y system yn cael eu hoptimeiddio.

Mae Alder wedi gweithio gyda thua 70-80 o bobl ifanc, pob un â'i stori a phrofiad ei hun er mwyn llywio'r strategaeth, gan gadarnhau bod achos cymhellol dros newid. Canolbwynt y model yw atal, gweithredu'n gynnar a gweithio gyda gwasanaethau cyffredinol er mwyn cadw plant a phobl ifanc allan o'r system, atal uwchgyfeirio materion er mwyn rhoi model mwy cost effeithiol ar gyfer gwasanaethau, wrth gydnabod y bydd heriau o fewn y cynllun gweithredu cymhleth hwn ar hyd y ffordd.

Wrth lunio'r model, mae Alder wedi cadw mentrau polisi gan LIC mewn cof ac wedi ceisio cynnwys pob menter polisi gydag argymhellion o ganlyniad i newidiadau polisi yn y dyfodol.

Dywedodd RG ei bod wedi bod yn amlwg o fodlau arfer gorau mai'r ffordd orau o reoli tensiwn wrth ariannu pecynnau gofal unigol yw sicrhau aliniad o ran cyllideb gyffredin, er mwyn ariannu'r gofal cywir yn y ffordd fwyaf cost effeithiol. Mae'r dull hwn yn mynd â'r tensiwn o ran cyllid i lefel strategol, lle gall asiantaethau gyfrannu at y gronfa systemig gyffredinol.

Diolchodd FR i gydweithwyr ALI a PBC am y gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y 5 mis diwethaf ar y ffrwd waith hon.

Dywedodd JoW ei bod yn bwysig bod yn gyfarwydd â'r model rhyngwladol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl a lles integredig plant a phobl ifanc wrth weithio mewn gwlad eang gyda natur wledig ac amrywiaethau o ran modelau darparu. Mae BIPBC wedi'u hatynnu at yr her strategol a gyflwynir, gan edrych ar ffyrdd o feddwl yn greadigol a defnyddio adnoddau ar y cyd ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. Mae'r pandemig eisoes wedi dangos pob partner yn cydweithio heb y cyfyngiadau ariannol uniongyrchol o ddydd i ddydd, gyda chanlyniadau eithaf da. Mae'n werth archwilio'r strategaeth ar y cyd, gan sicrhau gwerth gorau yn y system.

Cafwyd trafodaeth a nododd aelodau'r BPRh y sylwadau canlynol:

- Mae aelodau'r BPRh yn croesawu'r strategaeth, gan gredu ei bod yn bwysig bod y strategaeth yn cael ei strwythuro trwy lais plant a phobl ifanc, er mwyn cynnwys yr holl blant a phobl ifanc gan gynnwys y rhai o gymunedau anodd eu cyrraedd a throsteddwyr o'r dechrau.

Cwblhawyd proses ymgysylltu fanwl gyda phlant a phobl ifanc, er ein bod yn ymwybodol mai dim ond gwella all fod i brosesau, nid ydym yn sicr a oes ymgysylltiad digonol â'r gymuned deithwyr. Y neges gyson gan blant a phobl ifanc trwy gydol yr ymgysylltu oedd sicrhau eu bod yn dal i fod yn rhan o brosesau llywodraethu a dal gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau i gyfrif.

- Gofynnodd BPRh hefyd sut oedd troseddu'n cael ei ystyried o ran iechyd meddwl a lles, fel rhan o'r Strategaeth.

Mae'r cyswllt rhwng iechyd meddwl a throsteddu yn bwysig a chadarnhaodd RG fod cydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru wedi mynychu'r gweithdai. Bydd yn hanfodol bod y strategaeth yn dilyn dull partneriaeth amlasiantaeth, gan gynnwys Tai, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol i ymateb fel un system.

- Nododd aelodau'r BPRh hefyd na ddylid nodi gweithwyr proffesiynol fel rhwystr, a dylid ystyried ffiniau proffesiynol a dylai partneriaid fod yn ymrwymedig i gydweithio ar y strategaeth arloesol hon.

Bydd rheoli ffiniau proffesiynol yn creu canlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc, bydd gweithio ar ddatblygu system amlddisgyblaethol fel rhan o weithredu'r strategaeth yn sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn cael eu defnyddio er budd plant a phobl ifanc.

- Bydd cydweithwyr addysg yn ymwneud cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae plant a phobl ifanc eisoes wedi dweud bod angen i ysgolion fod ar flaen y datrysiad, oherwydd bod plant yn treulio cyfran sylweddol o amser yn yr amgylchedd ysgol a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno. Mae dau weithdy wedi'u cynllunio; addysg Gynradd a'r Blynyddoedd Cynnar ac Uwchradd/Drydyddol, a bydd y rhain yn dechrau'r wythnos nesaf.

- Ymrwymiad i anghenion lefel isel, a symud o isel i gymhleth.

	<p>Anghenion lefel isel yw un o'r gwasanaethau â'r lleiaf o adnoddau, ond y lefel hon yw lle gellir atal nifer sylweddol o achosion rhag cael eu huwchgwyfeirio.</p> <p><i>Mae adborth gwych wedi dod i law gan nyrsys ysgol yn y rownd gyntaf o weithdai o ran y llwybr ar gyfer anghenion lefel isel. Mae amser a dreulir ar ofal lefel isel yn allweddol, bydd trin mewn modd amserol yn osgoi materion rhag gwaethgu.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r strategaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, ac mae'n cynnwys y bobl ifanc hŷn sy'n cael eu cynnwys dan wasanaethau oedolion hefyd. <p>Mae croeso i'r strategaeth gynorthwyo â materion pontio er mwyn dileu'r problemau rhwng gwasanaethau lechyd Meddwl i Blant a gwasanaethau lechyd Meddwl i Oedolion.</p> <p><i>Gall pontio fod yn gyfnod anodd pan gaiff pobl ifanc eu hanfon yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau. Mae proses bontio Strategaeth NWD wedi'i llywio gan ymchwil yn Solihull, gyda'r penderfyniad ar bontio yn cael ei wneud er lles gorau'r bobl ifanc yn unig.</i></p> <p>Diolchodd RG i gydweithwyr am eu cyfraniad i'r strategaeth ac roedd o'r farn bod hwn yn gyfle, nid yn unig i greu strategaeth DDA ar gyfer Gogledd Cymru, ond fel patrwm o'r radd flaenaf.</p> <p>Dywedodd y Cyng LIMH ei bod yn ansicr sut mae partneriaid yn cytuno i ymrwymiad Strategaeth DDA, ydi cefnogi'r Strategaeth trwy BPRhGC yn ddigonol?</p> <p>Diolchodd y cadeirydd i RG am y trosolwg cynhwysfawr o Strategaeth DDA. Mae'n amlwg o'r drafodaeth fod BPRhGC yn ymrwymedig i gytuno i Strategaeth NWD, ac roedd BPRhGC yn cytuno y dylid nodi'r argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi a chymeradwyo prif bwyntiau'r strategaeth • Cytuno'r camau nesaf fel a nodir yn yr adroddiad hwn <p>Caiff strategaeth derfynol DDA ei chyflwyno i gyfarfod BPRhGC yn y dyfodol, a bydd gofyn i'r strategaeth fynd trwy broses lywodraethu partneriaid BPRhGC maes o law.</p>	
3.	<p><u>Cymru Iachach – Rhaglen Drawsnewid LIC Chwarter 2:</u> <u>Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol – Chris Stockport</u></p> <p>Dywedodd CS fod Chwarter 2 wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol ar nifer o feysydd gwaith allweddol, er gwaethaf y pwysau sylweddol iawn y mae pob partner ac unigolyn allweddol yn eu hwynebu wrth i effaith Covid barhau i daro pob rhan o'r system.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er hyn, mae nifer o raglenni gwaith allweddol wedi'u cwblhau: • Mae proffiliau pen ardaloedd wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r 14 o ardaloedd/ clystyrau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, ac maent wedi'u rhannu gyda thimau lleol a Chlystyrau • Mae'r gwaith gyda Sgiliau Iechyd yn yr Ardal Ganolog wedi'i gwblhau hefyd, ac mae'r adroddiad yn mynd trwy lywodraethu lleol a rhanbarthol • Mae'r Canllawiau Arfer Gorau ar gyfer ymgynghoriadau dros y we wedi'u cymeradwyo a'u cefnogi gan arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth rhanbarthol 	

- Daeth model D2RA yn Nhŷ Marleyfield yn Sir y Fflint yn weithredol ym mis Medi

Y cyflawniadau nodedig eraill yn ystod y Chwarter hwn yw:

- Mae mentrau meicro-ofal wedi'u defnyddio'n llwyddiannus yn Wreccsam pan wnaeth darparwr gofal dynnu'n ôl o'r farchnad
- Mae gwaith i ddatblygu mentrau meicro-ofal yn Sir Ddinbych hefyd yn dechrau datblygu
- Mae gwaith wedi'i ddechrau i ystyried rôl cyllidebau cyfun yn seiliedig ar leoedd ar gyfer helpu i reoli pwysau ym maes gofal cartref yn Wreccsam
- Mae 'cynlluniau ar dudalen' Timau Adnoddau Cymunedol yn cael eu drafftio yng Ngwynedd i gefnogi datblygiad parhaus gwaith Timau Adnoddau Cymunedol
- Mae gwaith i weithredu canolbwynt gofal ac iechyd trwy SharePoint yng Ngwynedd wedi dechrau hefyd
- Mae Ynys Môn a Gwynedd yn arwain ar brototeip Timau Adnoddau Cymunedol ar gyfer y rhanbarth – er bod materion cenedlaethol gyda gweithredu WCCIS wedi achosi oedi, mae gwaith mapio prosesau wedi'i gwblhau bellach ac mae'r ddau brosiect ar y trywydd iawn ar gyfer cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth
- Mae IPC wedi dechrau gwaith yn eiddgar i gyfweld budd-ddeiliaid allweddol fel rhan o'r gwerthusiad annibynnol

Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc - Nicola Stubbins

Nododd NS y cynnydd sylweddol a wnaed ar y rhaglen gyda chanlyniadau sylweddol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd wedi elwa o'r rhaglen hyd yma.

Nododd NS un elfen yn y rhaglen gyffredinol, Staywise Cymru, a gymerwyd i ddechrau gan gynrychiolydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru BPRhGC. Cytunodd Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc i gefnogi'r prosiect, a oedd yn golygu cyfieithu prosiect cyfan y DU er mwyn iddo fod ar gael i blant Cymru. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi dweud nad oes ganddynt gapasiti bellach i arwain ar y darn hwn o waith ac mae NS yn holi a oes gan unrhyw aelodau eraill o'r BPRh gapasiti i wneud y gwaith hwn.

Dywedodd HC eu bod yn rhan o brosiect tebyg Cymru gyfan, ond nad oeddent am ailadrodd gwaith na cholli'r cyllid, a byddant yn trafod yn fewnol. Dywedodd HC hefyd fod Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â Phentre Peryglon, a byddant yn ystyried y dewis hwn hefyd.

Cadarnhaodd NS fod y prosiect wedi'i ariannu'n llawn a byddai'n croesawu enwau aelodau'r BPRh i gyflawni'r prosiect.

T4MH – Amanda Lonsdale

Nododd TO yr uchafbwyntiau canlynol:

- Mae'r gwaith yn parhau i gael ei ariannu o fewn 12 canolbwynt cymunedol Fedra I (ICAN), ac mae rhaglen o hyfforddiant ar y gweill bellach

HC i adrodd yn ôl i BPRhGC

Anfon enwau gwirfoddolw yr at NS

- Mae Recriwtio Gofal Sylfaenol ICAN, wedi'i alinio â meddygfeydd Meddygon Teulu ar draws Gogledd Cymru gyfan, wedi dechrau
- Mae Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu wedi'i weithredu i gefnogi hyrwyddo ac ymwybyddiaeth o Gynnig ICAN
- Mae Gwefan newydd ICAN wedi'i lansio i hyrwyddo'r gwahanol gynigion gwasanaeth
- Mae cyllid wedi'i sicrhau i sefydlu Cynnig Gofal heb ei Drefnu ICAN, fel dewis amgen i'r Adran Frys a bydd yn ffurfio rhan o'r llwybr argyfwng pob oedran
- Mae perfformiad pob cynnig Gwasanaeth ICAN wedi'i roi ar un dangosfwrdd perfformiad, gyda chynnydd o ran adrodd yn erbyn profiadau yn ôl cleifion a chanlyniadau cleifion a welwyd
- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar beilot Gofal Sylfaenol ICAN yn y Gorllewin, gyda chyflwyno Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio mewn Meddygfeydd Meddygon Teulu a gweithio'n agos gyda phartneriaid Canolbwynt ICAN
- Rhagwelir y caiff mwyafrif y gyllideb a ddyrannwyd ei hanfonebu a'i thalu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2021
- Dolen i wefan ICAN: <https://bipbc.gig.cymru/cyngor-iechyd/hwb-iechyd-meddwl/fedra-i/>

Anabledd Dysgu – Neil Ayling

Adroddodd NA am y 5 maes gwaith allweddol:

- Cyflogaeth – mae 5 dinesydd gydag Anabledd Dysgu wedi cytuno i fod yn rhan o ffeil a fydd yn hyrwyddo a dangos pobl yn gweithio mewn amrywiaeth o alwedigaethau a busnesau ar draws gogledd Cymru
- Newid Cymunedol a Diwylliannol – Mae gwaith wedi dechrau ar greu 'Model Darparu Amgen' lle mae dinasyddion ag anabledd dysgu wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau.
- Llety rhanbarthol – mae gwaith yn barhaus ar leoliadau y Tu Allan i'r Sir neu y Tu Allan i'r Ardal
- Technoleg – Gan weithio mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, mae mwy na 40 o ddyfeisiau Llechen wedi'u llwytho o flaen llaw wedi'u dosbarthu i ddinasyddion gydag anabledd dysgu ar draws y rhanbarth
- Iechyd a Lles – mae 14 o ddinasyddion ag anableddau dysgu wedi'u recriwtio i rôl eiriolwyr Gwiriadau Iechyd

Cadarnhaodd NA fod rhagolwg ariannol Rhaglen Drawsnewid Anabledd Dysgu ar y trywydd iawn hefyd.

Canolbwynt RIIC – Catrin Roberts

Amlygodd CR rai o'r camau gweithredu a gwblhawyd yn chwarter 2. Y prif bwyntiau:

- Cwblhau gwaith ail-ddylunio'r casgliad o syniadau da a lansio'r gronfa ddata ymgysylltu
- Sefydlu fforwm ymgysylltu rhanbarthol i gydlyn ymgysylltiad ar yr asesiad o anghenion poblogaeth, asesiad lles a phrosiectau rhanbarthol eraill
- Dechrau prosiect mapio o ymchwil, arloesedd a gweithgarwch gwella gyda Phrifysgol Abertawe
- Parhau i gefnogi'r rhaglen drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig gydag ymchwil a gwerthuso, e.e. chwilio am

	<p>lenyddiaeth ac arolygon i gefnogi datblygiad adnodd iechyd a lles emosiynol plant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddatblygu rhwydweithiau a hyrwyddo prosiectau Gogledd Cymru, e.e. cefnogi prosiectau i gyflwyno ym Mhrosiect Iechyd a Gofal Gwledig Cymru • Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud wrth edrych ar wneud cais ar gyfer cyfle ariannu Cydweithredfa Ymchwil Penderfynyddion Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae newid llwybr bellach ac mae gwaith yn cael ei wneud gydag un ALI unigol i wneud cais trwy lwybr unigol yn hytrach nag ar sail ranbarthol • Parhau i gefnogi gwaith yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth <p>Bydd gwaith yn parhau ar y prosiectau uchod yn y chwarter nesaf, yn enwedig yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth.</p> <p>Mae cynllun cynaliadwyedd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y dewis a ffeirir yw bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r canolbwynt, sy'n cael ei ystyried fel rhan o'u Rhaglen Arloesi newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym yn aros am gymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer 4 blynedd ychwanegol o gyllid ar gyfer y canolbwynt. Yn y cyfamser, rhag ofn na fydd y cyllid yn cyrraedd gan LIC, mae dewisiadau eraill yn cael eu harchwilio i ddatblygu Canolbwynt RIIC i gefnogi'r gronfa ehangach a gallai hwn fod yn fodel hybrid, gan gynnwys ffynonellau cyllid grant eraill.</p> <p>Cytunodd BPRhGC i gymeradwyo'r 4 Rhaglen Drawsnewid ac adroddiadau Chwarter 2 2021-2022 Canolbwynt RIIC.</p>	
4.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am Adeiladu Cymru Iachach - Teresa Owen</u></p> <p>Cafodd y bwrdd adroddiad diweddarau gan TO am Adeiladu Cymru Iachach, gan nodi'r cynnydd hyd yma (Ebrill – Hydref 2021).</p> <p>Dywedodd TO, yn 2021/22, roedd LIC wedi gwneud dyraniad o £1.301 miliwn i'r Bwrdd Iechyd i gefnogi darparu Adeiladu Cymru Iachach, gan ganolbwyntio ar themâu Adeiladu Cymru Iachach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfynyddion ehangach • Sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd • Galluogi ymddygiad iach • Lleihau baich clefyd • Galluogi newid trawsnewidiol <p>Roedd y meysydd rhaglen a ddewiswyd, a oedd yn canolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd y gellid eu darparu ar raddfa yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cychwyn yn lawn • Gwell gyda'n Gilydd • Galluogi <p>Byddai'r rhaglenni uchod yn cyflawni gwelliannau o ran iechyd poblogaethau a chyflawni enillion ar fuddsoddiad. Roedd rhestr fanwl o waith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn (Ebrill – Hydref 2021), a oedd yn canolbwyntio ar y penderfynyddion ehangach, uchod, wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>Bydd gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf</p>	

	<p>(Tachwedd 21 – Mawrth 22) yn parhau ar y prosiectau yn unol â'r cynlluniau prosiect unigol. Mae cyllid cyfranogol yn cael ei archwilio trwy Grŵp Rhwydwaith Partner Adeiladu Gogledd Cymru Iachach, pe bai unrhyw danwariant.</p> <p>Gofynnwyd i BPRhGC nodi'r risgiau a'r materion allweddol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes dyraniad ariannol wedi'i gadarnhau ar gyfer parhau â phrosiectau Adeiladu Cymru Iachach ar ôl 21/22. Yr arwydd presennol yw y bydd cyllid yn cael ei ddarparu i gefnogi gweithgarwch sy'n ymwneud â gordewdra a rhoi'r gorau i smygu. Recriwtio i swydd Seicolegydd (Gwasanaeth Gordewdra Plant Haen 3). <p>Cytunodd y Bwrdd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi'r cynnydd Nodi'r bwriad i adrodd BPRh ddiwydd ochr yn ochr ag adrodd canol blwyddyn / diwedd blwyddyn LIC. Oherwydd nad yw templedi adrodd canol blwyddyn LIC wedi'u dosbarthu i Fyrddau Iechyd eto, mae'r briff dros dro hwn wedi'i gynhyrchu. Bydd cyfnod adrodd yn y dyfodol yn adlewyrchu cyfnod adrodd diwedd blwyddyn LIC (Hydref 21 – Mawrth 22) ac yn defnyddio fformat adrodd LIC er cysondeb pan ddaw i law. 	
<p>5.</p>	<p><u>Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru (RHSCG) - Rachel Pierce-Jones</u></p> <p>Roedd RP-J yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y RHSCG o fis Ebrill 2021, gan gynnwys Datganiad Blynyddol RHSCG i LIC, gan grynhoi'r gwaith a gwblhawyd yn 2020-21 ac amlinellu amcanion y grŵp ar gyfer 2021-22.</p> <p>Mae cyswllt RHSCG i'r BPRh yng nghanllawiau'r Grant Cymorth Tai yn nodi:</p> <p>“Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fodd i ddatblygu gwaith cydweithredol rhwng gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Felly, dylai Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol feithrin cydberthynas waith agos â nhw er mwyn comisiynu, cynllunio neu ganolbwyntio gwasanaethau ar y cyd fel y gellir manteisio i'r eithaf ar ddibenion ategol gwasanaethau Tai, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gefnogir”.</p> <p>“Bydd disgwyl i Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol gydweithio mor agos â phosibl â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a dylent sefydlu cydberthynas â'r Cynrychiolwyr Tai ar y Byrddau hynny”.</p> <p>Yn ogystal â chysylltu â'r BPRh, mae blaenoriaethau RHSCG yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant/unedau cymorth rhanbarthol LGBTQ+ Prosiect Celcio Rhanbarthol Archwilio darpariaeth ranbarthol ar gyfer dynion sy'n goroesi cam-drin domestig Hyfforddiant Tai pwrpasol Iechyd Meddwl wedi'i ddarparu ar draws y rhanbarth – gan Hafan Cymru 	

	<ul style="list-style-type: none"> - Peilot sefydlu Amgylcheddol Deallus Seicolegol - Ailgartrefu Cyflym – wedi'i gefnogi gan ganolbwynt Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru Gyfan i sefydlu darpariaeth. Nodwyd risg oherwydd cyllid yn y dyfodol. - Materion sy'n dod i'r amlwg ar ôl pandemig Covid-19 – mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo gyda staff tai, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth am y materion sy'n dod i'r amlwg o'r pandemig. Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod staff yn teimlo wedi blino, bod y llwyth gwaith yn uwch a bod problemau o ran recriwtio. - Grŵp Strategaeth Digartrefedd rhanbarthol. <p>Mae ALI yn gweithio ar Strategaeth Dai 4 blynedd ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth ar gael ym mis Ebrill 2022 a bydd yn cynnwys swm mawr o ddata i lywio gwaith y dyfodol.</p> <p>Cydnabu'r BPRh yr adroddiad cynhwysfawr, gan ddangos pwysigrwydd Timau Tai yr ALI a sut mae'r grant yn plethu i drefniant comisiynu'r BPRh, gyda £41 miliwn wedi'i ddyrannu i'r maes hwn er mwyn atal digartrefedd, gan leihau'r galw ar wasanaethau ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol yn y pen draw.</p> <p>Holodd JGal am gyllid digartrefedd LIC, a oedd i fod i orffen ym mis Ebrill 2022. Roedd y cyllid hwn yn symud unigolion digartref i lety dros dro dros y pandemig, a gallai effaith bosibl diffyg cyllid gael effaith enfawr ar wasanaethau. Cadarnhaodd RP-J fod nifer y bobl sy'n cysgu allan yn cynyddu, a bod ALI yn troi unigolion i ffwrdd oherwydd diffyg stoc dai. Cydnabyddir hefyd fod partneriaid yn gwneud eu gorau i gynorthwyo â'r argyfwng, gyda heriau oherwydd nifer y bobl sydd angen help, a'r diffyg o ran darpariaeth yn gyffredinol.</p> <p>Ailadroddodd cydweithwyr BPRh fod ALI yn ei chael yn anodd datrys y sefyllfa ddigartrefedd sy'n gwaethygu, er bod cynlluniau hirdymor ar waith, ni ellir datrys yr heriau hyn dros nos. Mae diffyg o ran stoc dai, llai o eiddo rhent ar gael, a chynnydd o ran costau rhent wedi gwaethygu'r sefyllfa hefyd.</p> <p>Dywedodd RP-J, er nad oes ateb sydyn i'r materion tai a digartrefedd, cynigiodd ddychwelyd i gyfarfod BPRhGC i roi diweddariad pellach am y Rhaglen Ailgartrefu Cyflym a Strategaeth Dai yr ALI.</p>	
6.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid y Dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd - Catrin Roberts</u></p> <p>Dywedodd CR wrth BPRhGC am y gronfa fuddsoddi refeniw 5 mlynedd arfaethedig i adeiladu ar waith a dysgu'r Gronfa Gofal Integredig a Rhaglenni Trawsnewid hyd yma. Bydd y gronfa newydd yn rhedeg o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027 a bydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd integredig ar draws Cymru.</p> <p>Ar y cyd ag arweinwyr BPRh, mae gweithdai wythnosol wedi'u cynnal gyda LIC i gyd-gynhyrchu'r model ariannu, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a darparu. Dywedodd CR nad yw'r</p>	

gweithdai wedi bod yn rhan o benderfynu ar faint o gyllid gaiff ei ddyrannu i bob rhanbarth.

Cynigir un gronfa sy'n cynnwys Cymru Iachach, Iechyd Meddwl, Dementia, Ymgysylltu, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, refferniw'r Gronfa Gofal Integredig, perfformiad a gwerthuso a Rhaglenni Trawsnewid. Mae Canolbwynt RIIC a WCCIS ar wahân ond wedi'u halinio'n agos.

Mae'r strwythur ariannu arfaethedig wedi'i rannu i'r meysydd canlynol:

- Cronfa Cymorth Rhanbarthol – i gefnogi swyddogaeth y BPRh, gyda disgwyliad clir gan LIC – cyllid LIC 100%
- Prosiectau Cenedlaethol – prosiectau wedi'u neilltuo, Dementia a phrosiectau Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a chyllid LIC 100%
- Staffio'r Rhaglen a Darpariaeth – staff i gefnogi'r Camau Cyflymu a Sefydlu – cyllid LIC 100%
- Cam Cyflymu – Uchafswm cyfnod y prosiect yn y cam hwn yw 2 flynedd a gallai gynnwys prosiect sydd eisoes wedi bodoli ers dros 3 blynedd.
Cyllid LIC 90% / arian cyfatebol Partner 10%
- Cam Sefydlu – byddai nifer fawr o brosiectau yn dod dan y cam hwn. Yr uchafswm cyfnod a ganiateir yn y cam hwn yw 3 blynedd a daw'r cyllid gan LIC 70% / arian cyfatebol Partner 30%
- Trosglwyddo i Wasanaethau Craidd – mae prosiectau â thystiolaeth lawn, cwbl weithredol a graddedig yn darparu yn erbyn pob amcan yn dod dan y cam hwn – cyllid LIC 50% / Partneriaid 50%
- Cyfalaf – yn amodol ar drafodaeth ar wahân ar hyn o bryd.

Sylwch fod yr uchod i gyd yn amodol ar gytundeb LIC.

Arian Cyfatebol – ar hyn o bryd, mae LIC yn trafod diffiniadau adnoddau cyfatebol, ar wahân i arian – h.y. adnoddau, staffio, adeiladau, hyfforddiant ac ati.

Byddai angen i'r prosiectau sy'n dod dan y cam Sefydlu neu Gyflymu ddangos bod y buddsoddiad yn darparu yn erbyn un o'r blaenoriaethau ym mhob un o'r blaenoriaethau thematig, galluogwyr a grwpiau poblogaeth.

Mae'r ddogfen dewisiadau i'w hystyried wedi'i chyflwyno i Weinidogion ac ar hyn o bryd, mae LIC yn ysgrifennu'r ddogfen ganllawiau i gael ei dosbarthu ddiwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr.

Dywedodd CR fod y grŵp wedi gofyn i LIC ystyried blwyddyn drawsnewid, er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i weithio gyda phartneriaid yn ystod y 12 mis cyntaf er mwyn dyrannu prosiectau presennol i'r rhaglen newydd, ystyried arian cyfatebol, i fod yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2023.

Y cam nesaf yw gweithio trwy pob prosiect Rhaglen Drawsnewid a'r

	<p>Gronfa Gofal Integredig a'u mapio yn erbyn y strwythur ariannu, nodi costau arian cyfatebol ar gyfer pob cynllun i'r rhanbarth, a beth fydd hyn yn debygol o'i olygu i bob partner. Caiff y diweddariad hwn ei ddarparu i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar ddiwedd mis Tachwedd a chynhelir cyfarfod ar wahân gyda phartneriaid i drafod y cynnig a'r goblygiadau.</p> <p>Pan fydd y canllawiau terfynol wedi'u cyhoeddi, bydd angen i'r rhanbarth ystyried sut i weithredu yng Ngogledd Cymru, penderfynu ar y blaenoriaethau a'r dewisiadau, gan ddibynnu ar faint o gyllid a geir gan LIC.</p> <p>Yn anffodus, nid oes unrhyw wybodaeth bendant i'w rhannu heddiw, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt, a chaiff aelodau BPRhGC wybod cyn gynted ag y bydd diweddariad am y canllawiau/cyllid wedi dod i law.</p> <p>Dywedodd LIMH, o ystyried y risgiau, yr ansicrwydd o ran a fyddai Cyngor Sir Ynys Môn mewn sefyllfa i ddarparu cyllid ym mis Ebrill 2022, o ran amserlen ar gyfer gosod cyllideb ALI a phwysleisiodd yr ansicrwydd o ymrwymo i gronfa hirdymor pan gaiff cyllidebau cyllid ALI eu gosod ar sail flynyddol.</p> <p>Gofynnodd y Cyng BF am oblygiadau o ran cost wrth sefydlu'r system gyfan, gan nodi pryder o ran adnoddau wrth fwrw ymlaen â hyn oherwydd bod cyllid craidd gofal cymdeithasol wedi'i danariannu, a'r argyfwng recriwtio, a diffyg cydraddoldeb yn y Bwrdd lechyd a'r ALI o ran statws, cyflogau a thelerau ac amodau.</p> <p>Roedd JW yn credu bod angen hyblygrwydd yn ystod y 12 mis cyntaf i ganiatáu ar gyfer newidiadau sylweddol, a bod trafodaeth am ddyrannu prosiectau i'r cam cywir yn hanfodol i'r gronfa 5 mlynedd newydd, a chynigiodd fod BPRhGC yn cymryd rhan er mwyn dylanwadu ar y penderfyniad hwn hefyd. Roedd y cyllid yn hanfodol o ran parhad gwasanaethau'r ALI, sydd wedi dod yn wasanaethau wedi'u sefydlu, gan ddarparu dyletswyddau ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Diolchodd y cadeirydd i CR am y diweddariad a chytunodd BPRhGC i anfon llythyr at LIC am y trefniadau o ran y flwyddyn drawsnewid o 1.4.2022.</p>	<p>BPRh i ysgrifennu at LIC am hyblygrwydd y gronfa - CR</p>
<p>7.</p>	<p><u>Adroddiad Cynllun y Gaeaf BPRhGC – Catrin Roberts</u> Dywedodd CR fod BPRhGC wedi cytuno yn 20-21 i ddatblygu Cynllun y Gaeaf 2021-22 ar sail gofynion blaenorol, trwy gasglu un Cynllun y Gaeaf PBC/ALI ar sail y pwysau presennol yn y system, er mwyn bod â drafft ar waith yn gynharach ar gyfer LIC a chyn pwysau'r gaeaf.</p> <p>Roedd cynllun rhanbarthol, lefel uchel, wedi'i gostio, sef cyfuniad o gynlluniau a gyflwynwyd gan y Bwrdd lechyd a'r 6 Awdurdod Lleol, wedi'i gasglu cyn cyhoeddi cyllid Cynllun y Gaeaf LIC, a oedd yn dod i gyfanswm o £4.785 miliwn.</p> <p>Yng nghyfarfod diweddar y Grŵp Arweinyddiaeth, cadarnhaodd BIPBC eu bod wedi ymrwymo eu dyraniad o gyllid y gaeaf 2021-22</p>	

	<p>tuag at fuddsoddi mewn cefnogi'r pwysau critigol yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Wedi hynny, collodd y cynllun lefel uchel gyfanswm cynlluniau BIPBC o £2.6 miliwn, ac ar ôl cyhoeddiad LIC o gyllid £2.213 miliwn i'r rhanbarth, gofynnwyd i gydweithwyr edrych ar eu cynlluniau eto o fewn y dyraniad o £2.2 miliwn, a'u dychwelyd erbyn 19.11.2021. Heddiw, gofynnir i BPRhGC gytuno ar Gynllun y Gaeaf arfaethedig. Caiff y fersiwn derfynol ei dosbarthu i aelodau'r BPRh i'w chymeradwyo cyn dyddiad cau LIC sef 25.11.2021.</p> <p>Cydnabu JoW y gwaith a wnaed o ran llunio cynllun y gaeaf a phwysleisiodd fod y datrysiad i'r argyfwng trwy weithio mewn partneriaeth. Apeliodd ar ALI i ddefnyddio'r cyllid i gefnogi'r argyfwng presennol yn y system ofal.</p> <p>Nododd NA yr angen i flaenoriaethu unigolion sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, a chydabu gynnig PBC o ran cyllid y gaeaf, ond dywedodd y byddai'r cyllid yn cyfrannu cefnogaeth gyfyngedig at y sector gofal cartref a'r sector gofal. Roedd diffyg sylweddol o ran y cyllid gofynnol i ddelio â datrysiad i'r argyfwng presennol o ran gofal cartref.</p> <p>Ar ran darparwyr annibynnol, ailadroddodd MW y pwysau yn y system i bawb.</p> <p>Dywedodd JG fod LIC wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o £4 miliwn i'r Trydydd Sector, wedi'i gyfeirio at gynlluniau lleol trwy Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol. Nid oes eglurder wedi'i ddarparu o ran sut mae'r prosiectau cenedlaethol wedi'u nodi. Roedd JGal yn credu y byddai wedi bod yn fwy effeithiol pe bai'r Trydydd Sector wedi'i sefydlu yn y cynllun rhanbarthol.</p> <p>Roedd BPRhGC yn cytuno y dylid nodi'r cynllun drafft a gyflwynwyd yng nghyfarfod BPRhGC heddiw, a bod Cynllun y Gaeaf terfynol yn cael ei gymeradwyo gan BPRhGC trwy ei ddsbarthu dros e-bost cyn ei gyflwyno i LIC erbyn y dyddiad cau, sef 25.11.2021.</p>	
8.	<p><u>Diweddariad adfer (diweddariad ar lafar) – Nicola Stubbins</u></p> <p>Dywedodd NS fod y rhanbarth yn dal i fod â phroses adfer a llywodraethu ffurfiol ar waith trwy'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol. Cafodd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gymeradwyo fel un o'r blaenoriaethau wrth drawsnewid o Grŵp Cydlynu Strategol i Grŵp Cydlynu Rhanbarthol a chytunwyd ar y 6 maes allweddol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithlu 2. Cynaliadwyedd / Sefydlogrwydd y Farchnad/ Gofal Preswyl a Gofal Cartref, Asesiad o Anghenion Poblogaeth a Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad. 3. Plant – canolbwyntio ar les a chadernid Plant a Phobl Ifanc 4. Iechyd Meddwl – pob oed 5. Ehangu'r defnydd o dechnoleg ddigidol/llwyfannau digidol 6. Covid Hir – gan gynnwys effaith ar bobl oedd yn derbyn gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu <p>Mae'r agenda adfer wedi aros ar agenda'r Grŵp Arweinyddiaeth dan ambarél y BPRh wrth ddarparu diweddariadau misol i'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol ar y meysydd allweddol uchod. Prif rôl y Grŵp</p>	

	<p>Cydlynu Rhanbarthol yw uwchgyfeirio materion a sicrhau bod trafodaethau'n digwydd yn y fforwm cywir, ac osgoi ailadrodd gwaith. Ar ôl trafodaeth yn y Grŵp Cydlynu Rhanbarthol diweddar, penderfynwyd y daw adrodd misol i'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol i ben yn y dyfodol, a bydd y llywodraethu adrodd yn dod dan y BPRh.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>BIPBC – Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Adfer – Jo Whitehead</u> Adroddodd JoW am bwysau sylweddol parhaus yn yr Adran Frys, mynediad at Ofal Sylfaenol ar gyfer cyngor meddygol brys a Gofal Heb ei Drefnu.</p> <p>Rhaglen Pigiad Atgyfnerthu Covid – Mae BIPBC yn cynnig brechiad pigiad atgyfnerthu Pfizer a Moderna. Mae gan y ddau frechlyn gyfyngiadau o ran eu bod yn anodd eu rheoli mewn symiau mawr. Mae LIC wedi cytuno i ddarparu pecyn maint llai er mwyn galluogi cynnydd mewn darpariaeth leol.</p> <p>Pwysau'r Gaeaf – Mae angen cefnogaeth ALL i fynd i'r afael â nifer y cleifion sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, er mwyn caniatáu capasiti i BIPBC gadw i fyny â niferoedd, a gallu darparu amgylchedd diogel i'r bobl sy'n dod i'r Adran Frys.</p> <p>Recriwtio – mae staff ychwanegol wedi'u recriwtio ar gyfer y tri phrif safle ysbyty, er mwyn cynorthwyo â'r cynnydd yn y system.</p> <p>Gofal heb ei Gynllunio – mae amseroedd aros yn parhau am nifer o resymau, e.e. gofynion Cyfarpar Diogelu Personol, diheintio rhwng pob claf a llai o le i weithio. Mae BIPBC yn gweithio gyda darparwr allanol i sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer Cataractau ac maen nhw'n parhau i weithio'n fewnol gan ofyn i staff weithio sifftiau ychwanegol gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn lleihau amseroedd aros.</p> <p>Mae gwaith ar ystadau cyfalaf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Achos busnes heb ei gwblhau gyda LIC ac ailddatblygu Ysbyty Alexandra. • Ailddatblygu'r safle lechyd Meddwl yn YGC • Gweithio ar achos busnes i wella'r ystâd yn YM ac YG • Gweithio gyda phartneriaid tai ar ail-ddarparu cyfleusterau preswyl i staff, gyda chysylltiadau cryf â'r agenda adfywio a recriwtio <p>Canmolodd MW brosesau recriwtio er mwyn lleihau'r ôl-groniad, fodd bynnag, nododd bryder os oedd recriwtio'n niweidio'r sector annibynnol, sy'n ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff i swyddi lle nad yw telerau ac amodau'n gyfartal â BIPBC.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>Nodiadau a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Hydref 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 9.10.2021 yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • CR i roi diweddariad am aelodaeth is-grŵp plant BPRhGC – <i>Mae'r cam gweithredu ar gyfer cynrychiolydd Tai a'r Trydydd Sector wedi'i gymryd gan yr is-grŵp Plant.</i> • Dosbarthu adroddiadau mis Medi'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol – <i>Wedi'i gwblhau</i> 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthu'r llythyr i LIC ynglŷn â'r pwysau – <i>Wedi'i gwblhau</i> <p>Mae'r camau gweithredu hyn sy'n weddill hefyd wedi'u cwblhau o gyfarfod BPRh 10.9.2021:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun y Gaeaf – bydd yr adroddiad ar Gynllun y Gaeaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Tachwedd – <i>Wedi'i gwblhau</i> • Nodiadau o weithdy 7.9.2021 – Pwysau o fewn Gofal Cartref – nodiadau i gael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod – <i>Wedi'i gwblhau</i> • Trafodaeth Gofal a Thrwsio ac Adre o'r Ysbyty – SLW i gysylltu â NS i gael trafodaeth – <i>Wedi'i gwblhau</i> <p>Camau sydd eto i'w cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • JW i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am olrhain myfyrwyr gwaith cymdeithasol – <i>mae'r gwaith hwn yn barhaus a chaiff ei ddosbarthu pan fydd wedi'i gwblhau</i> 	
<p>11.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u> Dywedodd NS wrth aelodau'r BPRh am Gynhadledd ADSS a oedd ar droed 17-18 Tachwedd, mae croeso i gydweithwyr o'r bartneriaeth ehangach fynychu.</p>	
	<p>Darparwyd y dogfennau canlynol er gwybodaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiadau diweddarau Blaenoriaeth Adfer i'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol (Hydref) 2. Gwybodaeth am gyrsiau Ôl-raddedig mewn lechyd Ataliol a Chydraddoldeb lechyd 3. Digwyddiad plant 30.11.2021 – <i>enwau i'w hanfon at RW cyn gynted ag sy'n bosibl</i> 	